**<u>Y Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr</u>**
**<u>Dydd Mercher 21 Tachwedd 2018</u>**
**<u>12.30 – 13.30pm</u>**
**<u>Ystafelloedd Seminar y Pierhead, y Pierhead</u>**

**Yn bresennol:**
Julie Morgan AC, Aelod Cynulliad Gogledd Caerdydd, Cadeirydd
Lee Waters AC, Aelod Cynulliad Llanelli
Prif Arolygydd Liz McCarthy - Heddlu De Cymru
Helen West – Swyddfa Julie Morgan AC
Trudy Aspinwall - Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant
Rhiannon Jones - Teithio Ymlaen, Tros Gynnal Plant
Jasmine Jones - Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Clare Arnold - Priory Project
Denise Barry - Diogelu Oedolion sy'n Agored i Niwed (SOVA)
Brett Korshaven - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Amanda Cartwright - Llywodraeth Cymru
Andrew Jones - Llywodraeth Cymru
Sue Morgan - Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Carly Thomas - Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Charlie Jones - Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Wayne Thomas – Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Savannah Miller - Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Cheryl Medway – Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen
Tyrone Price - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Sir Benfro)
Ricky Price - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Sir Benfro)
Sonia Dickson - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Caerdydd)
Thomas Hendry - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Casnewydd)
Leanne Morgan - Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (Sir Benfro)
David Phillips
Debs Stauber, Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (Pobl)
Gemma Griffiths, Gwasanaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwent (Pobl)

Croesawodd Julie Morgan AC bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y Prif Arolygydd Liz McCarthy o Heddlu De Cymru.

Diweddarodd Thomas Hendry bawb ar gynlluniau ar gyfer y digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost ym mis Ionawr 2019. Mae lle wedi cael ei drefnu ar risiau'r Senedd a'r Neuadd i gynnal gwylnos a gwylio fideo gyda darn o waith celf ddydd Mercher 23 Ionawr .

Cyflwynodd Liz McCarthy ei hun fel arweinydd Heddlu De Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Ei rôl yw adeiladu pontydd a chreu gwell cysylltiadau rhwng yr Heddlu a'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Cwestiynau a gyflwynwyd i Liz McCarthy:

1. **Mae'n ymddangos bod y berthynas rhwng yr Heddlu a Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd o dan fwy o straen na'r berthynas rhwng yr Heddlu a Sipsiwn a Theithwyr mewn tai. A yw'r Prif Arolygydd yn cytuno? Ac os felly, pam mae'n meddwl hyn?**

- Pan fydd yr heddlu'n mynd i dŷ - dim ond un teulu fydd yno. Pan fydd yr heddlu'n mynd i safle, mae nifer o deuluoedd o'u cwmpas.
- Defnyddir yr un faint o adnoddau i fynd i gartref preifat neu ar safle.
- Cynhelir asesiadau risg ar bob ymweliad, p'un a yw hynny mewn perthynas â safle ai peidio.
- Cododd Tom Tom y pwynt bod pobl yn dod allan o'u cartrefi am fod cynifer o geir heddlu yn dod i'r safle. Pe bai dim ond un car yn dod i'r safle yna ni fyddai'n denu sylw. Dywedodd Liz McCarthy ei fod i gyd yn dibynnu ar y wybodaeth a roddir i'r heddlu, a'r hyn sydd wedi digwydd ar y safle yn y gorffennol.
- Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn mynd i safle Drenewydd Gelli-farch a Ffordd Rover er mwyn meithrin cysylltiadau. Mae'r heddlu a Sipsiwn a Theithwyr yn ddwy ran o'r un gymuned.

Wedyn, trafodwyd y mater o drosedd casineb. Mae pobl yn aml yn gwaeddi ar Sipsiwn a Theithwyr ac yn galw enwau arnynt yn y stryd. Ni fyddai hyn yn cael ei oddef mewn diwylliannau eraill. Pwysleisiodd Liz McCarthy bwysigrwydd roi gwybod i'r heddlu am y troseddau casineb hyn . Ni fyddant yn gallu ymateb iddynt os nad ydynt yn gwybod eu bod yn digwydd. Mae pob trosedd casineb yn anghyfreithlon ac os rhoddir gwybod i'r heddlu amdanynt byddant yn cael eu cymryd o ddifrif. Tynnodd Julie sylw at y ffaith nad oes gan Sipsiwn a Theithwyr yr hyder yn aml i gysylltu â'r heddlu felly mae angen meithrin cysylltiadau gwell. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith na fu erlyniad trosedd casineb yn erbyn Sipsiwn a Theithwyr. Erlynwyd y bobl a losgodd ddelw o Dŵr Grenfell, ond pan gafodd yr un peth ei wneud i garafán cardbord, ni wnaethpwyd dim amdano.

Wedyn, trafodwyd hyfforddiant i'r heddlu. Cadarnhaodd Liz McCarthy ei bod hi'n gweithio ar hyfforddiant ar y cyd ar gyfer pob swyddog o'r heddlu. Mae angen addysgu a chynnal sgwrs onest ar y ddwy ochr. Mae Ysgol Monkton yn Sir Benfro yn cynnig hyfforddiant i'r heddlu ddwywaith y flwyddyn, ac mae Denise a Ricky wedi gwneud hyfforddiant gyda heddlu Dyfed Powys. Mae angen i chi hyfforddi pob lefel o'r heddlu. Pwysleisiodd Liz McCarthy bwysigrwydd hyfforddiant cymunedol sy'n adlewyrchu'r ardal lle mae swyddogion yr heddlu yn gweithio.

2. Ychydig flynyddoedd yn ôl fe wnaeth Heddlu De Cymru gynnal cyrch ar nifer o gartrefi yng Nghaerdydd, ar safleoedd ac oddi arnynt hefyd. Gwnaethant drydar lluniau o'r cyrch ac fe’i ffilmiwyd gan y BBC wrth iddo ddigwydd. O edrych yn ôl, a oedd hyn yn anghywir?

   - Mae'r heddlu yn aml yn trydar/tynnu ffotograffau wrth gynnal cyrch/gweithrediad. Mae safleoedd ar gau’n aml, sy'n golygu na all pobl fynd atynt neu ymadael ac mae hyn yn gwneud i bob Sipsiwn a Theithiwr ymddangos fel troseddwr.
   - Dywedodd Liz McCarthy na fydd swyddogion heddlu unigol yn trydar pan fyddant yn cynnal cyrch; yr adran gyfryngau fyddai’n gwneud hyn. Ni allant ychwaith atal y BBC / ITV rhag ffilmio.
   - Mewn perthynas ag achos penodol yn 2015 lle roedd 13 o bobl yn cael eu cadw fel caethweision, roedd y rhan fwyaf o'r datganiadau i'r wasg yn ymwneud â'r caethweision, nid y Sipsiwn a’r Teithwyr.
   - Yn y gorffennol, mae dŵr a thrydan wedi cael eu diffodd ar safleoedd pan fydd cyrchoedd yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd Liz McCarthy nad oes gan yr heddlu unrhyw awdurdod i wneud hyn felly mae’n rhaid mai rhywun o’r Awdurdod Lleol oedd yn gyfrifol am hyn.
   - Cododd David Phillips bryderon am ffotograffau byw a ffilmio yn ystod cyrchoedd, ac ethnigrwydd y bobl dan sylw yn cael ei ryddhau ymlaen llaw. Byddai rhywun ar reithgor wedi bod yn rhagfarnllyd pe bai wedi gweld y ffilm. Dywedodd Liz McCarthy y byddai'n rhaid rhoi caniatâd ar gyfer ffilmio.
   - Pwysleisiodd Tom Tom na roddwyd llawer o sylw pan gafodd terfysgwr ei arestio yng Nghasnewydd. Dywedodd Liz McCarthy mai achos llawer mwy cuddiedig oedd hyn a oedd yn hynod sensitif. Byddai’r un maint o adnoddau wedi cael eu defnyddio ar gyfer y ddau.
   - Dywedodd Lee Waters AC fod angen edrych ar y modd y mae grwpiau lleiafrifol yn cael eu portreadu yn y cyfryngau.

Cadarnhaodd Liz McCarthy y bydd yn crynhoi'r hyn sydd wedi dod allan o’r cyfarfod hwn a'i ddwyn i sylw'r Prif Gwnstabl. Mae angen cydnabod ochr dda a gwael gweithrediadau, yn ogystal â gofyn a ddylid gwneud datganiad i'r wasg ar ôl yn hytrach nag yn ystod y digwyddiad. Cytunodd Liz McCarthy bod camgymeriadau wedi cael eu gwneud, ond bod angen inni ddysgu o ganlyniad iddynt a symud ymlaen.

Tynnodd Jasmine sylw at y sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch cau ffyrdd ar Ffordd Rover oherwydd angladd. Roedd y sylwadau'n ofnadwy ac yn amlwg yn droseddau casineb. Roedd Heddlu De Cymru wedi trydar hefyd am y cau ffyrdd er mwyn hysbysu pobl am y dargyfeiriadau, ond roedd hyn hefyd wedi cynnig fforwm lle gellid postio sylwadau

casineb. Byddai'n dda yn y dyfodol i beidio â chaniatáu sylwadau ar drydariadau fel y rhain er mwyn osgoi rhoi llwyfan i'r rheini sydd am bostio sylwadau casineb.

Cododd Tyrone y pwynt fod angen gwneud mwy i dynnu sylw at y gwaith da sy'n cael ei wneud gyda Sipsiwn a Theithwyr a'r heddlu.

Dywedwyd hefyd y dylai'r cyfryngau roi gwybod am droseddau casineb mewn perthynas â Sipsiwn a Theithwyr - yn hytrach na chyhoeddusrwydd gwael yn unig.

Dywedodd y bobl ifanc o Ysgol Gorllewin Mynwy, Torfaen, na fyddent yn rhoi gwybod i'r heddlu am unrhyw droseddau casineb. Mae pobl yn galw enwau arnynt yn aml pan fyddant yn cerdded trwy ganol y dref. Pwysleisiodd Liz McCarthy bwysigrwydd rhoi gwybod i'r heddlu am ddigwyddiadau fel hyn.

Mae'n bwysig addysgu plant Sipsiwn a Theithwyr o oedran ifanc y gallant fynd at swyddogion yr heddlu i roi gwybod am droseddau, yn ogystal ag addysgu swyddogion yr heddlu.

I orffen, dywedodd David Phillips wrth y grŵp fod Cydraddoldeb Hiliol De-ddwyrain Cymru wedi cau, ond bydd ei waith yn parhau gyda nifer o sefydliadau llai. Mae Tom Tom yn arwain y Gymdeithas Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru.

***Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol***

Ailethol Julie Morgan AC yn Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol
Ailethol Thomas Hendry (Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru) fel Ysgrifenyddiaeth